



Llyfrgelloedd a'r Celfyddydau Cymunedol
Adain y Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau

Strategaeth y Celfyddydau 2014 - 2017 Cyngor Sir y Fflint

Y Celfyddydau yn Sir y Fflint

Mae sawl adain o fewn Cyngor Sir y Fflint yn chwarae rôl bwysig o ran cyfrannu at y celfyddydau. Mae tîm y Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau yn cynnwys gweithwyr proffesiynol a phrofiadol ym maes y celfyddydau gan gynnwys Rheolwr y Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau, Swyddog Datblygu'r Celfyddydau a Swyddog Digwyddiadau Cymunedol, pob un ohonyn nhw'n gweithio i sicrhau darpariaeth gelfyddydol a phrofiadau o'r safon uchaf i ysgolion a chymunedau Sir y Fflint.

Ers Strategaeth y Celfyddydau 2008-2013 mae'r adain wedi datblygu nifer o brosiectau llwyddiannus ar gyfer pobl Sir y Fflint, gan gynnwys rhaglen o breswyladau artistiaid mewn ysgolion, a gynlluniwyd ac a reolir gan y Swyddog Datblygu'r Celfyddydau – rhaglen sydd wedi ei hamlygu gan Gyngor Celfyddydau Cymru fel enghraifft o'r arfer gorau. Yn rhanbarthol, mae dau brosiect proffil uchel wedi eu darparu gan yr adain, sef prosiect Criw Celf a phrosiect yr Helfa Gelf. Mae Criw Celf yn brosiect y celfyddydau gweledol ar gyfer y bobl ifanc mwyaf medrus ac mae'r Helfa Gelf yn ddigwyddiad stiwdios agored ar gyfer artistiaid proffesiynol. Mae'r brosiectau yma wedi eu darparu mewn partneriaeth â holl Awdurdodau gogledd Cymru. Mae'r Swyddog Digwyddiadau Cymunedol wedi datblygu rhaglen o brofiadau artistig ar gyfer pobl hŷn fel rhan o Wyl y Gwanwyn - gŵyl genedlaethol flynyddol ar gyfer pobl hŷn. Dim ond rhagflas yw'r rhain o'r rhaglenni a'r brosiectau sydd wedi eu cyflwyno yn Sir y Fflint dros y pum mlynedd ddiwethaf. Mae yna lawer o weithgareddau addysgol, celf gyhoeddus, gwyliau a digwyddiadau wedi eu darparu ar hyd a lled y sir. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar gais gan Adain y Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau.

Adrannau eraill sy'n datblygu gweithgareddau artistig yw'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd, sy'n darparu cyfleusterau arddangos yn llyfrgelloedd Brychdyn, Bwcle, Treffynnon a'r Fflint ac yn gweithio'n agos gydag Adain y Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau i ddatblygu digwyddiadau a chyfleoedd celfyddydol i gymunedau Sir y Fflint; Gwasanaeth Cerdd Ysgolion, sy'n gyfrifol am y Gwasanaeth Cerdd Teithiol ac sydd wedi sefydlu Ysgol Gerddoriaeth sy'n cynnwys Côr Ieuencid Sir y Fflint ac amryw o ensembles; a'r Gwasanaeth Cefn Gwlad sy'n ceisio integreiddio brosiectau celf i gynlluniau rheoli cefn gwlad. Mae Adain Datblygu Economaidd y Cyngor yn gweithio gyda rheolwyr canolfannau canol tref a Chynghorau Cymuned i ddatblygu gwyliau, digwyddiadau a phrosiectau celf gyhoeddus fel rhan o raglen adfywio'r sir.

Prif ddarparwr profiadau celfyddydol Sir y Fflint, ar wahân i dîm y Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau, yw Clwyd Theatr Cymru. Mae hon yn theatr adnabyddus yn rhyngwladol ac yn gwmni cynhyrchu sy'n denu cynulleidfaoedd ac ymwelwyr o fwy na 150,000 pob blwyddyn. Mae cyfleusterau'r theatr yn cynnwys dwy brif ofod perfformio, theatr ffilm a nifer o fannau amlbwrpas sy'n cael eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau. Mae'r rhaglen perfformiadau yn gyfuniad o gynrychiadau mewnol a gweithiau gan gwmnïau ac

artistiaid sy'n ymweld. Mae gan Clwyd Theatr Cymru hefyd raglen addysgol sy'n cynnwys Theatr Pobl Ifanc a gweithdai di-rif.

Mae ysgolion a'r Gwasanaeth Ieuencid hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig i'r celfyddydau yn Sir y Fflint drwy gynnal lluo o arddangosfeydd, sioeau cerdd a pherfformiadau pob blwyddyn. Mae nawdd gan fusnesau lleol wedi bod yn hanfodol i ddatblygu amgylchedd artistig ffyniannus, a bydd tîm y Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau yn ymdrechu i ddenu nawdd newydd er mwyn sicrhau datblygiad pellach.

Mae Cymunedau yn Gyntaf yn darparu cyfleoedd celfyddydol ar gyfer y trigolion hynny sy'n byw mewn cymunedau anoddach i'w cyrraedd ac yn gyfrifol am redeg Melin Celf a Chrefft Treffynnon. Mae Adian y Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau yn gweithio gyda'r holl wasanaethau uchod i ddarparu cyngor ar brosiectau a gweithgareddau celfyddydol ac i gynorthwyo mewn unrhyw ffordd.

Yn ogystal, mae yna nifer o grwpiau annibynnol sy'n cwmpasu amrywiaeth o ffurfiau celf sy'n derbyn cefnogaeth ariannol gan y Cyngor Sir ar ffurf Cytundebau Lefel Gwasanaeth gydag Adain y Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau. Mae NEW Dance yn ddarparwr dawns traws-sirol sy'n cynnig darpariaeth i bob oed, o blant bach i bensiynwyr. Maen nhw'n hyrwyddo cynhwysiant i bawb o bob gallu ac i bobl gydag anghenion penodol ac maen nhw hefyd yn croesawu amrywiaeth o arddulliau dawns – o ddawns gyfoes, bale, a jas, i ddawnsio stryd, jeif a salsa. Mae Celfyddydau Cymunedol Glannau Dyfrdwy yn sefydliad sy'n ceisio ysgogi ac annog mynegiant creadigol fel gweithgaredd perthnasol ac ystyrlon ym mywydau pobl Glannau Dyfrdwy.

Mae sector celfyddydau gwirfoddol y sir yn datblygu'n dda ac mae yna dros gant tri deg o grwpiau celfyddydau cymunedol yn gweithredu yn y sir. Mae'r rhain yn cynnwys bandiau pres, grwpiau crefft a phaentio, grwpiau drama, corau a chwmnïau dawns ieuencid. Mae yma hefyd grwpiau rhwydweithio i ddarparu llwyfan ategol ar gyfer gwahanol fudiadau celfyddydol. Un enghraifft yw Rhwydwaith Celfyddydau Gweledol a Chrefft Sir y Fflint sydd ar hyn o bryd yn cynrychioli cannoedd o artistiaid. Mae llawer o grwpiau celf a chrefft Sir y Fflint yn ceisio hwyluso datblygiad gweithgareddau Celfyddydau Gweledol a Chrefft er lles cymunedau Sir y Fflint drwy ddarparu gwybodaeth, rhannu sgiliau a chefnogi ei gilydd.

Pam cael Strategaeth y Celfyddydau?

1. Mae'r celfyddydau yn cwmpasu llawer o ffurfiau a gweithgareddau e.e.
 - Dawns: gan gynnwys dawns gyfoes, bale a dawnsio stryd
 - Perfformio: gan gynnwys perfformwyr syrcas a theatr
 - Cerddoriaeth: gan gynnwys cerddoriaeth acwstig, roc ac opera

- Llenyddiaeth: gan gynnwys barddoniaeth, rhyddiaith a ffuglen
- Y Celfyddydau Gweledol: gan gynnwys peintio, cyfryngau newydd, cerfluniaeth a chelf gyhoeddus
- Crefftau: gan gynnwys cerameg, tecstilau a gemwaith

Ac mae yna doreth o ddarnau eraill o gelfyddyd gyfarwydd o'n cwmpas e.e. ar y teledu a'r radio, celf graffig gan gynnwys y rhai a welwn ar apiau, gwefannau a chonsolau gemau, y sinema, troelli recordiau a chynhyrchu cerddoriaeth ddigidol, a ffasiwn.

2. Mae gan y celfyddydau werth cynhenid ac mae'n cyfrannu at wella ansawdd bywyd drwy gyfoethogi ein bywydau a darparu gweithgareddau gwerth chweil; mae'r celfyddydau yn gyfle i ddysgu sgiliau newydd, gwella ein gwybodaeth ac archwilio ein teimladau. Bydd Strategaeth y Celfyddydau yma yn **datblygu cyfleoedd** ar gyfer trigolion Sir y Fflint i brofi'r celfyddydau
3. Mae gan y celfyddydau rôl allweddol i'w chwarae o ran **galluogi'r Gymuned a'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau**. Mae amcanion Strategaeth y Celfyddydau wedi eu cynllunio i sicrhau bod y celfyddydau yn gwneud cyfraniad sylweddol a chynyddol at bum blaenoriaeth Strategaeth Gymunedol Sir y Fflint 2009-2019:

- ffyniant economaidd
- gwella iechyd
- dysgu a sgiliau ar gyfer bywyd
- byw'n gynaliadwy
- cymunedau diogel a chefnogol

Pob blwyddyn mae'r Cyngor yn adolygu sut mae'n cyflawni'r blaenoriaethau yma o fewn ei Gynllun Gwella Blynnyddol.

4. **Mae'n rhaid i un o flaenoriaethau** Strategaeth y Celfyddydau **geflogi** a datblygu seilwaith, rhwydweithiau a phartneriaethau ar gyfer y celfyddydau yn Sir y Fflint ac annog mwynhad, cyfranogiad a mynediad cyfartal at y celfyddydau drwy gofleidio elfennau unigryw ac amrywiaeth y sir. Mae'n rhaid i'r flaenoriaeth barchu a meithrin ymdrech artistig unigol a chefnogi gweithwyr proffesiynol creadigol trwy gydnabod yr amser a'r gwaith sydd ynghlwm wrth gynhyrchu celfyddyd o safon uchel, a'r cyfraniad y maen nhw'n ei wneud at ein cymdeithas.
5. **Diben** y diweddariad hwn o Strategaeth y Celfyddydau yw rhoi gweledigaeth glir a llwybr pendant i dîm y Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau er mwyn iddyn nhw wneud penderfyniadau a datblygiadau doeth. Y bwriad yw y bydd y strategaeth yn codi proffil y celfyddydau trwy ddatganiad cydlynol ac integredig o nodau ac amcanion ar gyfer y tair

6. Mae strategaeth y celfyddydau yn **anelu** at sicrhau bod blaenoriaethau Strategaethau Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn cael eu hystyried trwyddi draw.
7. Mae Strategaeth y Celfyddydau effeithiol **yn annog bywiogrwydd creadigol** ac yn codi balchder a hyder o fewn y gymuned drwy gydnabod dychymyg ac arloesed y trigolion. Mae'n dathlu amrywiaeth trwy dynnu sylw at y cyfraniad y gallai pob grŵp ac unigolyn ei wneud at fywyd yn eu cymuned. Mae'n annog adfywio a thwf economaidd drwy ddenu buddsoddiad o'r tu allan. Mae miloedd o bobl yn Sir y Fflint yn cymryd rhan mewn gweithgareddau artistig; ac mae'r strategaeth hon yn anelu at annog a galluogi mwy o bobl i wneud hynny.

Mae Clwyd Theatr Cymru yn gorff annibynnol sy'n gweithredu o fewn Sir y Fflint ac oherwydd hynny mae ganddi bolisi a strategaeth, cyfeiriad a threfn llywodraethu ei hun.

Dyfyniadau gan y Cyngor Celfyddydau – ‘Ysbrydoli... Ein Strategaeth ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau yng Nghymru'

“Yng Nghyngor y Celfyddydau (<http://www.celfcymru.org/amdanom-ni>) ein gweledigaeth yw Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau yn ganolog i fywyd y genedl. Gyda'n gilydd, rydyn ni yng Nghymru ar daith ryfeddol. Pen draw'r daith yw gwlad sy'n greadigol drwyddi draw. I ni, mae'r celfyddydau yn hanfodol i ddyfodol Cymru – nid moethusrwydd ydyn nhw, ond conglfaen i adfywiad Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain.”

“Mae ein strategaeth yn canolbwyntio ar ymdrech ac uchelgais greadigol yn y celfyddydau; yr angen i'r celfyddydau gysylltu â phobl, a'u cynnwys; a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod effaith llwyddiant y celfyddydau yn adnewyddu ei hunan ac yn para.”

“Nid yw Celf yn dysgu cydymffurfiaeth; mae'n cwestiynu, yn herio ac yn synnu. Rydyn ni'n disgwyl i'n hartistiaid weld y tu hwnt i'r amlwg a'r arwynebol – defnyddio eu crebwyll a'u greddf, eu chwilfrydedd ar ei ddwysaf, a datgan drwy eu doniau a'u sgiliau, syniadau a fydd yn ein harwain i ddealltwriaeth ddyfnach o'r byd o'n cwmpas neu'n ein dyrchafu i brofiad gwahanol.”

Gweledigaeth a Nod Strategaeth y Celfyddydau

Y Weledigaeth

'Gweledigaeth Strategaeth y Celfyddydau yw cefnogi a datblygu seilwaith, rhwydweithiau a phartneriaethau ar gyfer y celfyddydau yn Sir y Fflint ac annog mwynhad, cyfranogiad a mynediad cyfartal at y celfyddydau ac, ar yr un pryd, ystyried blaenoriaethau'r Cyngor yn ei gyfanrwydd. Ac i hwyluso darparu cyfleoedd celfyddydol o safon i artistiaid, pobl ac ymwelwyr Sir y Fflint i sicrhau bod y celfyddydau yn rhan annatod o hunaniaeth ddiwylliannol y sir.'

Y Nodau

1. Eirioli

- Codi gwerth, proffil a gwerthfawrogiad o'r celfyddydau yn Sir y Fflint, cynyddu cyfleoedd i artistiaid, a chefnogi datblygu cynigion sy'n cynnig manteision i'r economi creadigol (Blaenoriaeth: ffyniant economaidd, byw'n gynaliadwy).

2. Cymryd Rhan

- Cefnogi ac annog darparu gweithgareddau/digwyddiadau celfyddydol ar gyfer pobl ifanc fel cyfranogwyr a chynulleidfaoedd, ac i gynyddu cyfleoedd ar gyfer cymryd rhan ar gyfer pob oed a gallu, gan gynnwys pobl hŷn a phobl sydd wedi eu heithrio'n gymdeithasol, ar draws ystod o ffurfiau celf (Blaenoriaeth: dysgu a sgiliau ar gyfer bywyd, gwella iechyd, cymunedau diogel a chefnogol).

3. Cyflwyniad

- Gofalu bod gan Sir y Fflint leoliadau addas i gyflwyno a pherfformio'r celfyddydau, ac i wella cyfleoedd ar gyfer perfformiadau a phrofiadau mewn lleoliadau ledled y sir (Blaenoriaeth: ffyniant economaidd, dysgu a sgiliau ar gyfer bywyd).

4. Partneriaethau

- Adeiladu ar a datblygu partneriaethau buddiol yn fewnol ac yn allanol er mwyn sicrhau darpariaeth o safon uchel ar lefel lleol, sirol a chenedlaethol (Blaenoriaeth: gwella iechyd, dysgu a sgiliau ar gyfer bywyd, ffyniant economaidd).

5. Polisiau

- Sicrhau y cedwir at bob polisi a gweithdrefn bob amser er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth gelfyddydol yn adlewyrchu gweledigaeth a gwerthoedd y Cyngor Sir, ac i fonitro datblygiadau mewn perthynas â Strategaethau Diwylliannol Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru

'Ysbrydoli... Ein Strategaeth ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau yng Nghymru' (Blaenoriaeth: Pob un).

Nod 1 Eirioli

Codi gwerth, proffil a gwerthfawrogiad o'r celfyddydau yn y Sir.

1.1 Paratoi Strategaeth y Celfyddydau, mewn ymgynghoriad â'r cyhoedd, a'i defnyddio i hysbysu a chynnwys y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol y celfyddydau.

1.2 Manteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo gwerth y celfyddydau i les pobl a'r cyfraniad y mae'r celfyddydau yn ei wneud at iechyd y sir a'i bywyd cymdeithasol, addysgol, amgylcheddol ac economaidd.

1.3 Sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r cyfleoedd artistig a ddarperir gan Gyngor Sir y Fflint a darparwyr eraill o fewn y sir.

Cynyddu cyfleoedd i artistiaid, a chefnogi datblygu cynigion sy'n cynnig manteision i'r economi creadigol.

1.4 Cadw a diweddarau cronfa ddata o artistiaid proffesiynol sy'n byw yn y sir.

1.5 Cysylltu gyda phartneriaid mewnol ac allanol i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer cyflogi artistiaid a rhoi budd economaidd i'r sir drwy gynnal arddangosfeydd, gwyliau, digwyddiadau, perfformiadau a phrosiectau celf gyhoeddus o fewn ein cymunedau.

1.6 Datblygu cyfleoedd hyfforddi i artistiaid o Sir y Fflint ac annog artistiaid i ymweld â Sir y Fflint.

Nod 2 Cymryd Rhan

Cefnogi ac annog darparu gweithgareddau/digwyddiadau celfyddydol ar gyfer pobl ifanc fel cyfranogwyr a chynulleidfaoedd.

2.1 Parhau i weithio gydag ysgolion, y Gwasanaeth Ieuentid a Chymunedol, Partneriaeth Pobl Ifanc a sefydliadau celfyddydau ieuentid eraill i roi mwy o gyfleoedd ar draws ystod o ffurfiau celf.

2.2 Monitro canlyniad 'Adolygiad Celf mewn Addysg yng Nghymru' Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, a lywiwyd gan Dai Smith a Strategaeth Creawdwy'r Ifanc Cyngor Celfyddydau Cymru a sicrhau bod y prosiectau sydd wedi eu hanelu at bobl ifanc yn berthnasol i'r rhaglen leol a chenedlaethol.

Cyngor y Celfyddydau – Dyfyniadau o Strategaeth Creawdwy'r Ifanc

Gall y celfyddydau feithrin gallu pobl ifainc i gwestiynu a chysylltu pethau, gan fagu meddwl miniog ac annibynnol. Gallant ysbrydoli pobl ifainc fagu roi uchelgais a hyder o'r newydd ynddynt, gan herio'r tloedi ymarferol,

addysgiadol ac ysbrydol sy'n deillio o gyrhaeddiad addysgol gwael. Gall y celfyddydau ddarparu'r allwedd i barhau i addysg bellach ac uwch, a chael swydd yn y pendraw.

Rydym am greu hinsawdd lle gellir meithrin a datblygu dawn, hyder ac uchelgais. Rydym am fuddsoddi mewn strategaethau clir ac arloesol sy'n helpu i gynhyrchu'r genhedlaeth nesaf o artistiaid creadigol a pherfformio ynghyd â chynulleidfaoedd celfgarol y dyfodol.

Cynyddu cyfleoedd i gymryd rhan ar draws ystod o ffurfiau celf.

2.3 Gweithio gyda phobl broffesiynol yn y celfyddydau i ddatblygu ansawdd y profiadau cyfranogi.

2.4 Gweithio gydag awdurdodau eraill yng ngogledd Cymru i ddarparu amrywiaeth o brosiectau a chyfleoedd.

2.5 Rhoi cyngor a hyrwyddo cyfleoedd a gynigir gan unigolion, grwpiau a sefydliadau o fewn cymunedau Sir y Fflint.

'Bu i ni fwynhau cael Cefyn Burgess yn yr ysgol. Dydi'r plant ddim wedi stopio siarad am y prosiect. Roedd y plant wrth eu bodd o gael y cyfle i gyfansoddi cerdd Gymraeg a fyddai'n cael ei harddangos yn Ninbych, Yr Wyddgrug ac yn yr Eisteddfod. O safbwynt dysgu, roedd y prosiect yma'n atgyfnerthu gwychder y celfyddydau fel arf ar gyfer addysgu. Diolch i chi Trefor am gydlynu ac am roi'r profiad gwych yma i ni.'

Mrs Margaret Madoc Jones
Pennaeth
Ysgol Telogan

Nod 3 Cyflwyniad

Gofalu bod gan Sir y Fflint leoliadau addas i gyflwyno a pherfformio'r celfyddydau.

3.1 Adolygu a chynghori ar ddatblygu'r mannau sydd eisoes ar gael yn y sir.

3.2 Ystyried goblygiadau unrhyw fwlch yn y ddarpariaeth ac, os yn briodol, rhoi cyngor ar ffynonellau ariannol eraill posibl.

3.3 Defnyddio mannau anarferol a'r awyr agored i gyflwyno a pherfformio'r celfyddydau mewn partneriaeth â **Llyfrgelloedd**, Rheolwyr Canol Tref, Artistiaid, partneriaid mewnol ac allanol a thirfeddianwyr.

Gwella cyfleoedd i gyflwyno perfformiadau a phrofiadau celfyddydol mewn mannau ledled y sir.

3.4 Gwerthuso Gŵyl Gelfyddydau Sir y Fflint i sicrhau ei bod yn darparu profiadau artistig arloesol ac o safon i gyfranogwyr a chynulleidfaoedd.

3.5 Annog sefydliadau lleol i wneud defnydd o Gynllun Teithiol Cymunedol 'Noson Allan' Cyngor Celfyddydau Cymru.

3.6 Sicrhau bod perfformiadau a phrofiadau yn cael eu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nod 4 Partneriaethau

Adeiladu ar a datblygu partneriaethau buddiol yn fewnol ac yn allanol er mwyn sicrhau darpariaeth o safon ar lefel lleol, sirol a chenedlaethol.

4.1 Cefnogi a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid mewnol ac allanol er mwyn sicrhau bod y sir yn denu'r ymarferwyr gorau ac yn cyflwyno rhaglen arloesol yn y celfyddydau.

4.2 Gweithio gydag Awdurdodau eraill a sefydliadau cenedlaethol i gyflwyno prosiectau ymchwil sy'n edrych ar sut gall y celfyddydau roi budd i bobl a chymunedau.

"Gall y celfyddydau roi budd i fywydau pobl mewn sawl ffordd, o addysg greadigol ein pobl ifanc i ddatblygiad economaidd a all ddod o dwristiaeth ddiwylliannol. Mae Creu Argraff yn enghraifft wych o sut gall cymryd rhan yn y celfyddydau yn hybu iechyd a lles. Mae'r cyfle i rannu profiadau a chymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol ystyrllon yn arwain at ganlyniadau iechyd cadarnhaol. Rwyf yn llongyfarch Cyngor Sir y Fflint a'r partneriaid eraill am gydweithio mewn ffordd mor ddychmygus ac arloesol."

Nick Calpaldi
Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru

'Roedd proses a chanlyniadau'r prosiect yma'n wych ac yn effeithiol ar gyfer cleifion a staff.

Y nodau allweddol a gyrhaeddwyd oedd:

- Digwyddiadau a phrosiectau sy'n cyfrannu at awyrgylch bywiog ac ysgogol er lles defnyddwyr gwasanaethau, ymwelwyr a staff*
- Prosiectau partneriaeth sy'n cynnwys y gymuned ehangach yng ngwaith a gwerthoedd y bwrdd iechyd, gan gynnwys elfennau o wella Profiad Defnyddwyr Gwasanaeth.*
- Defnyddio'r celfyddydau i greu amgylchedd gofal iechyd sy'n estyn croeso, tawelu meddwl, ysgogi, personol ac yn adlewyrchu anghenion a gwerthoedd y gymuned leol. Mae cynnwys y celfyddydau mewn prosiectau iechyd yn cael ei weld yn ffordd effeithiol a gwerth am arian o greu effaith a sicrhau priodoldeb.'*

Elizabeth Aylett Pennaeth
Therapiau Celf ac Arweinydd Gweithredu Clinigol
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

'Yn bersonol roedd hi'n wych gweld brwdfrydedd y cleifion oedd yn cymryd rhan. Roedd y dynion yn frwdfrydig dros ben; roedden nhw i gyd yn cymryd rhan yn y gwaith, a ddim yn siarad am eu salwch!'

Ysbyty Cymunedol yr Wyddgrug

Nod 5 Polisiâu

Sicrhau y cedwir at bob polisi a gweithdrefn bob amser e.e. cyfle cyfartal, iechyd a diogelwch ac ati.

5.1. Adolygu'r canllawiau sydd ar gael am y celfyddydau ac anabledd.

5.2. Wrth ddatblygu rhaglenni gweithgaredd, ceisio sicrhau eu bod yn adlewyrchu ystod o draddodiadau diwylliannol gan gynnwys yr iaith a'r diwylliant Cymraeg.

5.3. Ystyried polisi Cynhwysiad Cymdeithasol y Cyngor wrth ddyfeisio cyfleoedd artistig.

Sicrhau bod y ddarpariaeth gelfyddydol yn adlewyrchu gweledigaeth a gwerthoedd y Cyngor Sir.

5.4 Monitro, yn gyson, bod polisiâu ac arferion Tîm y Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau yn adlewyrchu Blaenoriaethau'r Cyngor.

5.5 Adolygu ac ailedrych ar y strategaeth yn flynyddol i asesu cynnydd a sicrhau bod targedau yn cael eu cyflawni.

Monitro datblygiadau mewn perthynas â Strategaeth Ddiwylliannol Llywodraeth Cymru a Strategaeth 'Ysbrydoli... Ein Strategaeth ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau yng Nghymru' Cyngor Celfyddydau Cymru.

5.6 Hyrwyddo gwerth y celfyddydau o fewn a thu allan i'r Cyngor Sir trwy gasglu tystiolaeth i brofi manteision a'r galw am brofiadau artistig creadigol.

5.7 Sicrhau bod Strategaeth Celfyddydau Sir y Fflint yn berthnasol i strategaethau Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru a bod y sir yn cael ei gweld fel eiriolwr darpariaeth gelfyddydol o safon yng Nghymru.

Dyfyniadau gan Lywodraeth Cymru - Diwylliant a Threftadaeth Cymru

*'Rydym ni'n awyddus i sicrhau bod cynifer â phosibl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau **celfyddydol** a chwaraeon, yn ogystal ag ehangu mynediad i'n hamgueddfeydd, ein llyfrgelloedd a'n safleoedd treftadaeth, gan dargedu teuluoedd incwm isel a phlant yn benodol i gael mynediad i'n gwasanaethau.'*